# Adroddiad crynodeb i rieni a gofalwyr ar Ysgol Bro Llifon

Dyddiad yr arolygiad: 18/05/2026

Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg

# Crynodeb

Mae Ysgol Bro Llifon yn gymuned ddysgu ofalgar a chynhwysol lle mae parch, caredigrwydd a lles wrth galon bywyd yr ysgol. Mae'r pennaeth yn darparu arweinyddiaeth glir ac ysbrydoledig, ac mae staff yn cydweithio'n effeithiol i sicrhau bod pob disgybl yn cael y cyfle i lwyddo.

Mae'r staff yn creu amgylchedd diogel a chefnogol lle mae disgyblion yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi. Mae disgwyliadau uchel o ran ymddygiad a dysgu, ac o ganlyniad, mae bron pob disgybl yn dangos agwedd gadarnhaol at eu gwaith ac yn cydweithio'n dda ag eraill. Mae staff yn adnabod anghenion unigol disgyblion yn hynod effeithiol ac yn darparu cymorth priodol ac amserol i'w cefnogi i wneud cynnydd.

Mae'r ysgol yn rhoi pwyslais cryf ar ddatblygu llais y disgybl. Trwy amrywiaeth o bwyllgorau a phrosiectau, mae disgyblion yn cael cyfleoedd gwerthfawr i arwain, rhannu syniadau a chyfrannu at fywyd yr ysgol a'r gymuned. Mae hyn yn datblygu eu hyder, eu hymwybyddiaeth foesol a'u dealltwriaeth o bwysigrwydd parch a goddefgarwch at eraill. Mae'r ysgol hefyd yn hyrwyddo ymwybyddiaeth o ddiwylliannau, traddodiadau a chredoau gwahanol yn llwyddiannus.

Mae ansawdd yr addysgu yn gadarn ar draws yr ysgol. Mae athrawon yn darparu profiadau dysgu cyfoethog a diddorol sy'n annog disgyblion i ddatblygu eu medrau'n llwyddiannus. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwneud cynnydd cadarn mewn llythrennedd, rhifedd a medrau digidol, gan gymhwyso'r medrau hyn yn hyderus ar draws y cwricwlwm. Mae medrau mathemategol y disgyblion yn gryfder arbennig, gyda llawer yn datrys problemau ac yn rhesymu'n effeithiol.

Mae diwylliant cryf o hunanwerthuso a gwelliant parhaus yn bodoli yn yr ysgol. Mae staff yn elwa ar gyfleoedd dysgu proffesiynol gwerthfawr ac yn gweithio'n arloesol i wella'r ddarpariaeth a safonau disgyblion. Mae'r berthynas gadarnhaol rhwng yr ysgol a rhieni yn gryfder amlwg, gyda chyfathrebu effeithiol yn helpu rhieni i gefnogi dysgu a datblygiad eu plant.

# Argymhellion a beth sy’n digwydd nesaf

**Rydym wedi gwneud un argymhelliad i helpu'r ysgol i barhau i wella:**

A1 Parhau i ledaenu’r arferion addysgu mwyaf effeithiol ar draws yr ysgol a thu hwnthwanegwch argymhellion.

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i fynd i’r afael â’r argymhellion o’r arolygiad

## Adroddiad llawn

Os hoffech ddarllen mwy am werthusiad Estyn o’r ysgol, dilynwch y ddolen hon i’r adroddiad llawn.

© Hawlfraint y Goron 2026: Gellir ailddefnyddio’r adroddiad hwn yn ddi-dâl: (a) mewn unrhyw fformat neu gyfrwng; a (b) gellir ei gyfieithu gan neu ar ran darparwr addysg a/neu hyfforddiant y mae’r adroddiad hwn yn ymwneud ag ef i unrhyw iaith, ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio ac/neu ei gyfieithu’n gywir ym mhob achos ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Ym mhob achos, rhaid cydnabod y deunydd (gan gynnwys unrhyw gyfieithiad) fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 21/07/2026